OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 64 (Cy.13)

CYRFF CYHOEDDUS, CYMRU

Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006

Wedi'i wneud	- -	*18 Ionawr 2006*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2006*

GAN FOD adran 28(1)(d) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ("Deddf 1998")(**1**), a Rhan I o Atodlen 4 iddi, yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") i drosglwyddo iddo'i hun swyddogaethau statudol Bwrdd Henebion Cymru ("y Bwrdd") sydd wedi'i gyfansoddi ar hyn o bryd o dan adran 22 o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 ("Deddf 1979")(**2**)

A CHAN FOD y Cynulliad Cenedlaethol o'r farn fod swyddogaethau statudol y Bwrdd, sef yn bennaf cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol ar arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf 1979, yn bennaf yn swyddogaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun ac felly'n dod o fewn adran 28(2)(a) o Ddeddf 1998

YN AWR FELLY mae'r Cynulliad Cenedlaethol, drwy arfer ei bwerau o dan adran 28 o Ddeddf 1998, a Rhan I o Atodlen 4 yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn (Diddymu) Bwrdd Henebion Cymru 2006.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2006.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Bwrdd" ("*the Board*") yw Bwrdd Henebion Cymru.

Diddymu'r Bwrdd

2.—(1) Diddymir y Bwrdd.

(2) Trosglwyddir pob eiddo a phob hawl y mae gan y Bwrdd hawl iddynt, ac unrhyw rwymedigaethau y mae'r Bwrdd yn ddarostyngedig iddynt, i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Diwygiadau canlyniadol

3.—(1) Diddymir y darpariaethau a ganlyn—

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) 1979 p.46; cafodd y Bwrdd ei ffurfio a'i gyfansoddi'n wreiddiol o dan adran 15 o Ddeddf Cydgrynhoi a Diwygio Henebion 1913 (p.32).